CRYNODEB EICH LLAIS CHI

Cyngor
Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar
Ogwr
Civic Offices,
Angel Street,
CF31 4WB



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

CYMORTH IEUENCTID PEN-Y-BONT AR OGWR
BRIDGEND YOUTH SUPPORT

TABL CYNNWYS

Y Cefndir a'r Amcanion	1
Canlyniadau'r Arolwg	3
Cwestiynau	4-14
Nodyn Clo	15

Y CEFNDIR A'R AMCANION

Yn dilyn pleidlais ‘Gwneud eich Marc’ ar draws y wlad gan Senedd yr Ifanc y DU yn 2024, nodwyd dau faes allweddol gan bobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr fel rhai oedd yn bwysig iddynt, a’r rhain oedd:

- Iechyd a Lles
- Addysg a Dysgu

Roedd ar Gymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr (BYS) eisiau dod i wybod mwy am sut y gallem werthuso pa mor effeithiol yw’r meysydd gwasanaeth hyn, a nodwyd fel rhai pwysig i bobl ifanc.

Wrth gydlynu a hwyluso gwaith y Cyngor Ieuenctid yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC), rydym wedi ymrwymo i Safonau Cenedlaethol Cyfranogiad Pobl Ifanc ac i'r sail statudol ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Wrth wraidd ein strategaeth cyfranogiad pobl ifanc yn CBSP mae llais pobl ifanc, ac elfen allweddol o hyn yw cynnwys pobl ifanc wrth gynllunio, darparu a gwerthuso ein gwasanaethau.

Mae Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr (BYC) yn darparu llwyfan ar gyfer fforwm llais pobl ifanc yn ein cymuned, ac roedd arnom eisiau clywed eu barn fel fforwm sy'n cysylltu arweinwyr CBSP, rhwydweithiau cynghorau ysgol, rhwydweithiau ieuenctid a grwpiau cyfranogi.




Pan ofynnwyd i'r Cyngor Ieuenctid sut y gallem estyn allan at bobl ifanc ym Mhen-y-bont, fe wnaethant awgrymu cynnal arolwg i edrych ar y ffordd y mae CBSP yn cwrdd ag anghenion pobl ifanc o ran iechyd emosiynol/meddyliol ac addysg, a byddai hyn yn gwella'r ddealltwriaeth o effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn yn CBSP ar hyn o bryd.

Datblygwyd arolwg 'Eich Llais Chi' drwy gydweithio â'r Cyngor Ieuenctid, y tîm Hawliau a Chyfranogiad Plant, a Chymorth Ieuenctid Pen-y-bont.

Gyda'n gilydd, ein nod oedd cynnal arolwg ar draws yr holl ysgolion, meysydd gwasanaeth y gyfarwyddiaeth a chlybiau ieuenctid y trydydd sector. Dyfeisiodd y Cyngor Ieuenctid y cwestiynau yr oeddent yn teimlo fyddai fwyaf perthnasol i bobl ifanc, gan wahodd gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd meddwl i'w cefnogi wrth ddylunio'r holiadur.

Roedd ar Gymorth Ieuenctid Pen-y-bont a'r Cyngor Ieuenctid eisiau gweld beth oedd yn mynd yn dda a nodi unrhyw fylchau o ran anghenion pobl ifanc yn yr ardal er mwyn gwerthuso'r gwasanaethau presennol. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ac wyneb yn wyneb drwy gydol tymor yr hydref yn 2024.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am oedran, addysg, cyflogaeth a mynychu canolfannau ieuenctid. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau am ffactorau sy'n cyfrannu at hapusrwydd ac anhapusrwydd, y gefnogaeth bresennol ar gyfer lles emosiynol/iechyd meddwl, a fyddent yn dymuno cael mynediad at gymorth a sut y byddent yn dymuno gwneud hynny, yn ogystal â'r rhwystrau a allai eu hatal rhag cael cymorth.




CANLYNIADAU'R AROLWG

Derbyniwyd cyfanswm o 790 o ymatebion i'r arolwg. Rhoddwyd cyfle hefyd i'r ymatebwyr adrodd drostynt eu hunain a rhannu gwybodaeth ychwanegol, er mwyn gallu gwrando ymhellach ar leisiau pobl ifanc.

Cafodd yr ymatebion ychwanegol hyn eu grwpio yn themâu. Cymerodd y Cyngor leuenctid ran yn wirfoddol yn y broses o nodi ac enwi'r themâu mwyaf cyffredin oedd yn bwysig i bobl ifanc oddi wrth ganlyniadau'r arolwg.

CWESTIWN 1

BETH YW EICH OEDRAN?



Cafwyd cyfanswm o 790 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gan 790 o ymatebwyr.

Y grŵp oedran mwyaf a ymatebodd oedd y rhai rhwng 11 ac 13 oed, gan gynrychioli 87.5% o'r ymatebwyr.

Felly, mae canfyddiadau'r data yn berthnasol yn bennaf i bobl ifanc rhwng 11 ac 13 blwydd oed.



CWESTIWN 2


ADDYSG A CHYFLOGAETH

Cafwyd cyfanswm o 790 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gan 790 o ymatebwyr.


Roedd y gyfran fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn mynychu'r ysgol (93.2% o'r ymatebwyr). Mae'r canlyniadau'n dangos bod y data a gafwyd yn adlewyrchu'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn mynychu'r ysgol.

Roedd y gyfran fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn mynychu ysgol uwchradd (98% o'r ymatebwyr). Mae'r canlyniadau'n dangos bod y data a gafwyd yn berthnasol yn bennaf **i'r rhai sy'n mynychu ysgol uwchradd.**

YDYCH CHI AR HYN O BRYD YN MYND I UNRHYW RAI O'R CANLYNOL?



YM MHA GYFNOD O ADDYSG YDYCH CHI?




CWESTIWN 3

MYNYCHU CANOLFAN IEUENCTID

Cafwyd cyfanswm o 790 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gan 790 o ymatebwyr. Nododd 74.7% o'r ymatebwyr nad oeddent yn mynychu canolfan ieuenctid.

Roedd y ganran oedd ar ôl yn cynnwys pobl ifanc oedd yn nodi eu bod yn mynychu'r canolfannau ieuenctid canlynol, yn nhrefn y nifer uchaf o fynychwyr:

YDYCH CHI'N MYNYCHU UNRHYW UN O'R CANOLFANNAU IEUENCTID CANLYNOL AR HYN O BRYD?



- Coleg Cymunedol y Dderwen - 4.2%
- Canolfan Ieuenctid Bytholwyrdd - 3.6%
- Cynffig - 2.6%
- Pencoed - 2.4%
- Bracla - 2%
- YPOP - 1.7%
- Golygyddion Ifanc - 0.9%

Adroddodd pobl ifanc hefyd eu bod yn mynychu: Canolfan gymunedol 'The Mem', clwb ieuenctid y Felin Wyllt, KPC, I2W+, gwasanaethau cwnsela, y Bont, Materion Iechyd Meddwl, gwasanaethau i'r rhai â phrofiad o ofal, canolfan Halo, Clwb Dawel, clwb ieuenctid Bryntirion, canolfan ieuenctid Maesteg, Academi Fenter Steer, Theatr Ieuenctid Pen-y-bont, Ffermwyr Ifanc, Prosiect The Rock, rygbi, clybiau bechgyn a merched a chlwb ieuenctid Llangrallo.



CWESTIWN 4

OS NAD YDYCH CHI'N MYNYCHU CANOLFAN IEUENCTID AR HYN O BRYD, A ALLECH CHI DDWEUD WRTHYM PAM?

Themâu posibl cyfredol yn seiliedig ar sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr eu hunain –

Amser

Dywedodd rhai nad oedd ganddynt yr amser, oherwydd gweithgareddau allgyrsiol eraill, rhieni yn gweithio, a gweithgareddau eraill.

Ansicrwydd

Nid oedd rhai yn siŵr ond roeddent yn mynegi ddiddordeb mewn mynychu.

Diffyg ymwybyddiaeth

Nid oedd cyfran fawr o'r ymatebwyr yn gwybod beth oedd canolfan ieuenctid, ble roeddent wedi eu lleoli, na beth oedd ar gael iddynt.

Dewis – dewis personol

Dewisodd rhai beidio â mynd, gan nodi nad oeddent yn hoffi canolfannau ieuenctid neu nad oeddent yn addas ar gyfer eu dewisiadau, eu diddordebau neu eu blaenoriaethau allgyrsiol. Dywedodd rhai ei bod yn well ganddynt dreulio amser gyda ffrindiau a theulu.

Dywedodd rhai eu bod yn hoffi cael amser rhydd ac nad oedd angen un arnynt. Dywedodd eraill eu bod wedi bod i glwb ieuenctid yn y gorffennol, ond eu bod wedi rhoi'r gorau i fynychu oherwydd amgylchiadau a dewisiadau personol. Mewn un achos, roedd y clwb ieuenctid wedi cau.



Cludiant

Nid oedd rhai ymatebwyr yn siŵr sut i gyrraedd y ganolfan ieuenctid, gan nodi eu bod yn rhy bell i ffwrdd neu ddim yn agos atynt hwy.

Cost

Teimlai un ymatebydd fod canolfannau ieuenctid yn rhy ddrud.

Caniatâd rhieni

Teimlai rhai ymatebwyr fod angen iddynt siarad â'u rhieni yn gyntaf a bod arnynt angen caniatâd eu rhieni. Teimlai eraill na allent fynychu oherwydd ymrwymiadau gwaith eu rhieni.

Dryswch

Teimlai rhai ymatebwyr mai diben canolfan ieuenctid oedd cefnogi iechyd emosiynol. Teimlent nad oedd angen iddynt fynd gan fod ganddynt iechyd emosiynol da.

Pryder

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai gormod o bobl yno, neu nad oeddent yn siŵr beth fyddai'n digwydd mewn canolfan ieuenctid; roedd pryder y gallai'r amgylchedd fod yn rhy swnllyd, a soniwyd am rywfaint o bryder ynghyd ag anawsterau wrth gwrdd â phobl newydd.



CWESTIWN 5

BETH SY'N GWNEUD I CHI DEIMLO'N HAPUS?

Cafwyd cyfanswm o 785 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gan 790 o ymatebwyr.

Categori 'ffrindiau' a gafodd y ganran uchaf gan yr ymatebwyr. Dywedodd 83.1% o'r cyfanswm o 785 o ymatebion fod ffrindiau'n gwneud iddynt deimlo'n hapus.

Categori 'teulu' oedd yr ail ffactor mwyaf arwyddocaol o ran gwneud i bobl ifanc deimlo'n hapus, gan gyfrif am 66% o gyfanswm yr ymatebion.

Y categori 'gwaith' a gafodd y ganran isaf, gan gyfrif am 5.9% o gyfanswm yr ymatebion.

Dim ond 24.5% o gyfanswm yr ymatebion oedd yn ymwneud â pherthnasoedd, a 28.2% â chymdeithasu.

Teimlai tua hanner yr ymatebwyr fod cerddoriaeth, anifeiliaid anwes, hwyl, gwyliau, cysgu a theledu/sinema yn cyfrannu at deimlo'n hapus.

Teimlai llai na chwarter fod perthnasoedd, derbyn canmoliaeth a'r tywydd yn cyfrannu at deimlo'n hapus.



Teimlai tua thraean fod helpu eraill, gwneud ymarfer corff, arian a chymdeithasu yn cyfrannu at deimlo'n hapus.

Cyfrannodd bwyta allan at 43.6% o gyfanswm yr ymatebion ynghylch teimlo'n hapus; fodd bynnag, nodwyd bwyd hefyd yn yr adran sylwadau ychwanegol fel ffactor sy'n cyfrannu at deimlo'n hapus.

Cafodd yr ymatebwyr ddewis i wneud sylw ychwanegol ynghylch beth oedd yn gwneud iddynt deimlo'n hapus.

Chwaraeon a grybwyllwyd amlaf yn yr adran sylwadau ychwanegol (dewisol) fel ffactor sy'n cyfrannu at deimlo'n hapus.



CWESTIWN 6

BETH SY'N GWNEUD I CHI DEIMLO'N ANHAPUS?

Cafwyd cyfanswm o 790 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gan 790 o ymatebwyr.

Y categori bwlio a gafodd y ganran uchaf gan yr ymatebwyr. Nododd 53% o'r holl ymatebion bod bwlio yn gwneud iddynt deimlo'n anhapus.

Teimlai mwy na chwarter fod delwedd corff a'r ysgol/llwyth gwaith yn cyfrannu at deimlo'n anhapus, tra roedd tua chwarter yn teimlo bod galar a cholled yn cyfrannu at deimlo'n anhapus.

Y categori gwaith a gafodd y ganran isaf gan yr ymatebwyr, sef 3.3% o'r holl ymatebion.

Teimlai llai na chwarter fod y categorïau eraill yn yr arolwg yn cyfrannu at deimlo'n anhapus.

Cafodd yr ymatebwyr ddewis i ychwanegu sylw ychwanegol ynghylch beth oedd yn gwneud iddynt deimlo'n anhapus.



CWESTIWN 7

BLE RYDYCH CHI'N CAEL CYMORTH AR HYN O BRYD AR GYFER EICH LLES EMOSIYNOL/IECHYD MEDDWL?

Cafwyd cyfanswm o 310 o ymatebion gan 790 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Pan gynhaliwyd yr arolwg yn Hydref 2024, roedd 39.1% o'r 785 o ymatebwyr yn cael cymorth ar gyfer eu lles emosiynol a'u hiechyd meddwl.

Y categori 'rhieni' a gynhyrchodd y ganran uchaf o ymatebion ynghylch ble roeddent yn cael cymorth ar hyn o bryd ar gyfer eu lles emosiynol/iechyd meddwl, sef 73.2% o'r 310 o ymatebion.

Ffrindiau/grwpiau cyfoedion oedd yr ail ffynhonnell fwyaf o gymorth i bobl ifanc, gan gyfrif am 32.9% o gyfanswm yr ymatebion. Er hynny, roedd pobl ifanc fwy na dwywaith yn fwy tebygol o gael cymorth gan eu rhieni na gan ffrindiau/grwpiau cyfoedion.

Cafodd tua 10% o'r ymatebwyr gymorth gan weithwyr ieuenctid, mewn lleoliadau addysgol, gan gynghorwyr ac ar-lein.

Cafodd ymatebwyr y dewis i wneud sylw ychwanegol ynghylch ble roeddent yn cael cymorth ar hyn o bryd ar gyfer lles emosiynol/iechyd meddwl.

CWESTIWN 8

A FYDDECH CHI'N MYND AM GYMORTH PE BAI AR GAEL?

Ymatebodd 788 o'r 790 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Dywedodd mwy na hanner y bobl ifanc y byddent yn manteisio ar gymorth pe bai ar gael – sef 55.3% o gyfanswm yr ymatebwyr i'r arolwg.

CWESTIWN 9

SUT BYDDECH CHI'N HOFFI DERBYN CYMORTH?

Y gyfran fwyaf o ymatebion ynghylch ble hoffai pobl ifanc dderbyn cymorth oedd wyneb yn wyneb, sef 41.3% o gyfanswm yr ymatebion i'r arolwg.

Y dewis lleiaf poblogaidd i bobl ifanc oedd derbyn cymorth trwy waith grŵp, sef 11.3% o gyfanswm yr ymatebion.

Yn yr ail safle o ran poblogrwydd roedd dau ddewis: cymorth un-i-un a chymorth drwy neges destun; roedd ychydig mwy o bobl yn ffafrio'r dull un-i-un (o 0.2% o gyfanswm yr ymatebion). Roedd y dulliau hyn tua hanner mor boblogaidd â'r dull wyneb yn wyneb.

Daeth cymorth ar-lein yn agos iawn i'r dewis o neges destun, gan gynrychioli 18% o gyfanswm yr ymatebion i'r arolwg.

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, efallai, bod pobl ifanc yn ffafrio derbyn cymorth wyneb yn wyneb ac yn gweld cael cymorth drwy waith grŵp yn llai dymunol, ond eu bod hefyd yn fodlon ystyried derbyn cymorth drwy dechnoleg, boed hynny ar ffurf neges destun neu ar-lein.

Nid yw'n glir, fodd bynnag, pa ddull y byddai pobl ifanc yn ei ddefnyddio i dderbyn cymorth ar-lein, megis fideo neu neges. Nid yw'n glir a fyddai'r categori un-i-un yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein. Nid yw'n glir ychwaith a oedd arnynt eisiau cymorth yn ffurf gwybodaeth gyffredinol neu gymorth gan unigolyn drwy wasanaeth ar-lein, nac ychwaith pa fath o gymorth (h.y. cynghorwr neu weithiwr ieuenctid).

Gallai astudiaethau pellach edrych i mewn i'r dewisiadau hyn. Rhoddwyd dewis i'r ymatebwyr wneud sylw ychwanegol ynghylch sut yr hoffent dderbyn cymorth.



CWESTIWN 10

BETH FYDDAI'N EICH ATAL RHAG CAEL CYMORTH?

Y broblem oedd fwyaf cyffredin ymhlith ymatebion pobl ifanc fel rheswm dros beidio â gofyn am gymorth oedd yr ofn o gael eu beirniadu, gan gyfrif am 42% o'r ymatebion yn gyffredinol. Y rhwystr a nodwyd fel y pryder lleiaf oedd diffyg tryloywder.

Amseroedd aros neu restrau aros oedd y rhwystr nesaf mwyaf cyffredin i ymatebwyr yr arolwg wrth geisio cael cymorth (27.1% o'r ymatebion yn gyffredinol), ac yna diffyg ymddiriedaeth a hyder yn y systemau (18.7%). Nododd pobl ifanc fod trafnidiaeth, argaeledd a diffyg cyfrinachedd yn rhwystrau posibl, gan gyfrif am tua 14% o'r ymatebion.

Nodwyd hygyrchedd y sesiynau, amseroedd neu leoliadau o fewn cyrraedd, a theimlo'n agored i niwed fel rhwystrau posibl gan tua 7-11% o ymatebwyr yr arolwg.

NODYN CLO

Nodwyd y themâu i ddechrau allan o'r data gan y tîm Hawliau a Chyfranogiad Plant wrth iddynt drefnu a dehongli'r swm mawr o ddata.

Mae cyfranogiad ac ymgysylltiad pobl ifanc drwy gydol yr arolwg hwn wedi bod yn hollbwysig gan fod iechyd a lles yn wreiddiol wedi ei nodi yn bwysig i bobl ifanc drwy bleidlais Gwneud eich Marc' 2024. At hynny, cafodd cwestiynau'r arolwg eu llunio gan y Cyngor Ieuenctid.

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor Ieuenctid yn cynllunio arolwg dilynol ar fwlio, sydd i fod i gael ei lansio ar gyfer Tymor yr Haf 2025. Byddant yn llunio ail arolwg ar Addysg ar gyfer Tymor yr Hydref 2025.

